**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD CABINET**
**CABINET MEMBER'S DECISION NOTICE**

PWNC/SUBJECT: Prynu System Gweinyddu Pwyllgorau Electronaidd/Purchasing an Electronic Committee Administration System

---

AELOD CABINET/CABINET MEMBER – Y Cynghorydd Dyfed Edwards

---

PENDERFYNIAD/DECISION

Eithrio'r Rheolau Gweithdrefn er mwyn caniatau prynu system Moderngov er defnydd gan y Cyngor

*To set aside the Procedural Orders in order to allow the purchase of the Moderngov system for use by the Council*

---

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD/REASONS FOR THE DECISION

Mae asesiad o lif gwaith papurau pwyllgor a gwasanaethau aelodau wrth baratoi ar gyfer lansio Gwefan newydd y Cyngor wedi dangos yn eglur bod prynu system Gweinyddu Pwyllgorau Electronaidd penodol gyda'r modd i gynnig rhyngwyneb cyhoeddus modern ac effeithiol yn cynnig gwell budd na cheisio defnyddio meddalwedd y wefan newydd i gyflawni'r un gwaith.

O gytuno ar hyn mewn cyfarfodydd trawsadrannol, daethpwyd yn fuan i'r casgliad bod un system ar y farchnad yn cynnig y gwerth gorau, system Moderngov, system sydd yn cynnig y manteision oll ac, yn benodol system sydd yn medru asio gyda'r system gwe-ddarlledu y mae'r Cyngor newydd ei brynu trwy drefniant cystadeuol.

Yr argymhelliad felly yw gosod y rheolau gweithdrefn o'r neilltuo am y rhesymau a nodir isod a chaniatau prynu'r system un uniongyrchol o'r cwmni

*An assessment of the workflow of committee papers and members' services in preparation for the launch of the new Council web-site has shown clearly that buying a specific Electronic Committee Management system would offer a more modern and effective interface that would offer more benefits than seeking to use the new web-site to undertake the same work.*

*Following agreement on this in inter-departmnental meetings, there was early agreement that one system in the market offered the best value, the Moderngov system that offers all the advantages and that can link with the Council's web-casting system that the Council has purchased through a competitive process.*

*The recommendation therefore is to set aside the procedural orders for the reasons noted below and to allow the purchase of the system directly from the company.*

---

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL/ RELEVANT CONSIDERATIONS

---

A. Costau'r System:-

- Trwydded a gosod: £17,500 (yn cynnwys gosod, hyfforddiant, templedi, symud data a chostau cynnal blwyddyn 1)
- Blwyddyn 2 ymlaen: Cefnogaeth flynyddol £7,870 y flwyddyn
- Ap arbennig i hwyluso gosod eitemau, yn cynnwys eitemau eithredig yn syth ar lechi cynghorwyr: £3,000 y flwyddyn (£1,500 y flwyddyn am tair mlynedd cyntaf)

DS Mae'r adnoddau ar gyfer ariannu hwn oll ar gael o adnoddau sydd eisoes wedi ei glustnodi yng nghronfeydd y Cynllun Strategol

B. Rhesymau dros yr Argymhelliad:-

- Y System wedi ei brofi yn y farchnad yn helaeth gan gynghorau eraill gyda'r mwyafrif llethol o gynghorau Cymru a Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio
- Cynghorau cyfagos eisoes yn defnyddio'r system yn golygu hwyluso cydweithioi ar draw cynghorau a hefyd, pe byddai uno cynghorau yn digwydd, y byddai modd dod i ben â'r elfen hon yn ddi-drafferth
- Cydymffurfiaeth llwyr a gofynion Polisi Iaith y Cyngor
- Y gallu i blethu gyda Chyfundrefn Gwe-ddarlledu'r Cyngor sydd wedi ei gaffael trwy broses gystadleuol
- Tim Datblygiad y Wefan yn croesawu hwn fel cyfrwng gwell i gyfarch anghenion yr elfennau democrataidd o Wefan y Cyngor

*A. Costs of the System:-*

- *License a dnInstallation: £17,500 (including installation, training, templates, data migration and Year 1 maintenance costs)*
- *Year 2 onwards: Annual support costs of £7,870 per annum*
- *A special app to faciliatate placing items, including exempt items directly onto councillors' tablets: £3,000 per annum (£1,500 per annum for the first three years)*

*NB. The resources for funding this are all available from resources already allocated in the funds of the Strategic Plan*

*B. Reasons for the Recommendation:-*

- *The system has been extensively market-tested by other councils with the vast majority of Welsh councils and the Welsh Government using it*
- *Neighbouring councils already using the system, facilitating co-operation across council and lose, if councils amalgamated, this could be dealt with easily*

- *Full conformance with the requirements of the Council's Language Policy*

- *The ability to link to the Council's Web-casting System that has been purchased through a competitive procedure*

- *The Web Development Team welcome this as a better means of meeting the needs of the democratic elements of the Council';s web-site*


BARN Y SWYDDOGION STATUDOL/VIEWS OF STATUTORY OFFICERS
1. Y Prif Weithredwr/Chief Executive:- "Dim i'w ychwanegu" / *"Nothing to add"*

2. Swyddog Monitro/ Monitoring Officer:- "Mae gwerth y gytundeb arfaethedig, gan gymeryd i ystyriaeth y costau refeniw yn disgyn o fewn rhiniog caffael sydd gosod angen ceisio tri dyfynbris ond nid tendr ffurfiol gan Reolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor . Cyflwynir rhesymau gwrthrychol priodol ar gyfer cyfianwhau gosod y rheolau o'r neilltu sydd yn cynnwys y gallu i asio a sustemau y Cyngor ynghyd a sicrhau cynaladwyedd y sustem wrth edrych i gynghorau cyfagos." / *"The value of the proposed contract, bearing in mind the revenue costs, falls within the threshold for seeking three quotes but not a formal tender under the Council's Procedural Contract Orders. Appropriate objective reasons for setting the Procedural Orders aside are presented including the ability to link to the Council's systems and ensure the sustainability of the system looking at nearby councils"*

3. Prif Swyddog Cyllid/Chief Finance Officer:- "Gallaf gadarnhau fod y meddalwedd arfaethedig yn un safonol, ac yn un sydd yn cael ei ddefnyddio yn eang ar draws llywodraeth leol. Ymhellach, rwyf yn fodlon fod y meddalwedd yn gydnaws gyda systemau'r Cyngor. O safbwynt priodoldeb ariannol, mae gwerth y cytundeb o dan y trothwy ar gyfer tendr ffurfiol o fewn y Rheolau Gweithdrefn Contractau, ond mae'n ddisgwyliedig fod tri dyfynbris yn cael eu derbyn ar gyfer caffael o'r maint yma. O ystyried natur arbenigol y meddalwedd sydd i'w brynu, rwyf yn fodlon fod cyfiawnhad dros ildio'r Rheolau Gweithdrefn Contractau yn yr achos hwn, yn unol â Rheol 27.1." / *"I can confirm that the proposed software is standard, and one that is being used widely across local government. Furthermore, I am satisfied that the software is compatible with the Council's systems. From a financial perspective, the value of the contract is below the threshold requiring a formal tender within the Contract Procedure Rules, but it is expected that three quotations are obtained for procurement of this value. Given the specialised nature of the software to be purchased, I am satisfied that there is justification for setting the Contract Procedure Rules aside in this case, pursuant to Rule 27.1."*

BARN YR AELOD LLEOL/VIEW OF LOCAL MEMBER

Ddim yn fater lleol / *Not a local issue*

| LLOFNOD /SIGNED | DYDDIAD/DATE |
| --- | --- |
|  | 6/11/2014 |